

Siop Lyfrau Bangor



Mae siop lyfrau Gristnogol MANNA ar Ffordd Caergybi ym Mangor Uchaf (dros ffordd i Capel Penrallt neu hen gapel Twrgwyn). Fe geir yno bob math o nwyddau, yn gardiau, coffi a nwyddau masnach deg yn ogystal â llyfrau a chylch-gronau Cristnogol.

Os na fuoch yno eisoes, mae'r mis hwn yn amser da i fynd yno gan fod pob llyfr i'w gael am bris gostyngol. Cewch 20% i ffwRDD oddi ar bris pob llyfr yn ystod mis Tachwedd.

Sioe Bypedau

Bydd Sioe Bypedau a The Parti Nadolig i blant dan 12 oed yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ddydd Mercher, Rhagfyr 6, ar ôl yr ysgol am 3.30 o'r gloch.

Y tâl mynediad fydd £2 i'r plant, a bydd hynny'n cynnwys y parti ac anrheg gan Sion Corn. Mae croeso i unrhyw blentyn i'r parti, ond mae angen prynu tocyn. Ffoniwch Heather Lynne Jones am docyn a rhagor o fanylion – 07867 982518

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 26

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Rhagfyr 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Tach. 26: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Tachwedd 21: Bydd Ffair Nadolig am 2.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Nos Wener, Tachwedd 24: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 26: Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

CARMEL

Nos Lun, Tachwedd 20: Pwyllgor y capel am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 24: Cynhelir Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 26: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Tachwedd 26: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 26: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 19

10.00 a.m. - Mr Corey Hampton

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams

Tachwedd 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Rhagfyr 3

10.00 a.m. - Mr John Roberts

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd (Carolau)



Salvator Mundi

400 miliwn doler (neu 304 miliwn punt): dyna gostiodd un llun yn Efrog Newydd ddydd Mercher diwethaf. Wedi ychwanegu costau'r ocsiwn fe dalodd y prynwr \$450m (neu £341m) am 'Salvator Mundi' ('Gwarddwr y Byd'). Rhyfedd meddwl fod y llun wedi ei werthu am £45 yn 1958. Wedi hynny, aeth yn angof nes iddo gael ei werthu yn 2005 i brynwyr a oedd yn benderfynol o'i adfer a phrofi mai Leonardo da Vinci a'i paentiodd. Erbyn 2010, roedd hynny wedi ei wneud. Fe'i gwerthwyd fwy nag unwaith wedyn am filiynau o bunnoedd cyn iddo ddod i'r ocsiwn ddydd Mercher.

Ie, £341m am Salvator Mundi; ond mae Iesu Grist, gwir Waredwr y Byd, yn amhrisiadwy. Ac eto, y mae ef yno yn rhad ac am ddim i bawb sy'n ei dderbyn. Gan mai unigolyn a brynodd y llun yr wythnos ddiwethaf mae'n bosibl na chaiff ei weld yn gyhoeddus am flynyddoedd eto. Ond fe welir y Gwarddwr unrhyw bryd gan y sawl sy'n edrych arno trwy ffydd.

Nid y ffaith mai llun o Iesu Grist ydyw sy'n rhoi gwerth i'r llun wrth gwrs. Mae cannoedd o luniau o'r Gwarddwr i'w cael, a ffrwyth dychymyg arlunydd yw hwn fel pob un arall ohonynt. Nid oes unrhyw sail dros gredu fod hwn damaid tebycach i Iesu nag unrhyw lun arall. Gallwn werthfawrogi'r llun er

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 749: 19 Tachwedd, 2017

hynny, trwy weld ynddo ddehongliad yr arlunydd o Grist neu ein dehongliad ni ein hunain o'r hyn a welwn. Un peth yn unig sy'n rhoi gwerth i'r llun, sef y dyfarniad mai Leonardo a'i paentiodd

Am ganrifoedd, roedd pobl yn credu mai gwaith arlunydd arall oedd o. Hyd yn oed heddiw, er iddo gael ei dderbyn fel gwaith Leonardo, barn arbenigwyr yn hytrach na phrawf diymwad sydd i gyfrif am hynny. Ac oherwydd y gwaith mawr a wnaed arno i'w lanhau a'i adnewyddu, dywed rhai mai copi o'r Salvator Mundi gwreiddiol i bob pwrpas yw'r llun erbyn hyn gan fod cymaint ohono wedi ei ail baentio. Ond er gwaethaf hyn oll, mae'n werth cannoedd o filiynau o bunnoedd am iddo gael ei gydnabod yn un o luniau prin Leonardo sydd wedi goroesi.

Nid y Crist a bortreadir sy'n gwneud y llun yn werthfawr ond yr arlunydd. Wedi'r cwbl, £45 a dalwyd amdano cyn iddo gael ei briodoli i Leonardo. Nid bai'r arlunydd yw hynny; ond y mae er hynny'n rhybudd i'r rhai sydd ym mhob cenhedlaeth yn cyhoeddi Grist. Oherwydd y Gwarddwr sy'n bwysig; ac ef sydd i gael y clod. Roedd Ioan Fedyddiwr yn deall hynny pan ddywedodd, 'Y mae'n rhaid iddo ef gynyddu ac i minnau leihau' (Ioan 3:30). Nid ein llwyddiant na'n lles na'n poblogrwydd na'n henw da ni sy'n bwysig yng ngwaith yr Efengyl, ond bod Iesu Grist yn cael ei glodfori. Dyrchafu gwir Waredwr y Byd yw ein gwaith, gan gyhoeddi'n ffyddlon holl fanylion prydfeth y darlun godidog ohono a geir yn y Beibl.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Rhowch ddedfryd o blaid y
gwan a'r amddifad, gwnewch
gyfiawnder â'r truenus a'r
diymgeledd. Gwardwch y gwan a'r
anghenus, achubwch hwy o law'r
drygionus' (Salm 82:3-4).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mr Corey Hampton. Bydd
yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.
Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y
Parchg Eifion Williams.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30
o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r
gloch gan y Parchg John Lewis Jones.
Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00
o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r
gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda ar hyn o bryd. Rhowch wybod ar
unwaith os gwelwch yn dda os oes aelod
o un o eglwysi'r Ofalaeth yn yr ysbyty.

Marwolaeth

Bu farw Mrs Nellie Pritchard, 3 Ffordd
Padarn, Llanberis ym Mhlas Pengwaith
ddydd Gwener, Tachwedd 17 yn 97
mlwydd oed. Roedd yn aelod o eglwys
Nant Padarn. Cydymdeimlwn â'i mab
Douglas yn ei golled. Cynhelir angladd
hollol breifat yn unol â'i dymuniad hi yn
Capel Coch ddydd Mercher.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr Goronwy Lewis,
Stryd Ceunant, Llanberis sydd wedi colli
ei chwaer, Mrs Eluned Roberts (gynt o
Maes Gwylfa, Deiniolen a fu farw ym
Mhlas Maesincla, Caernarfon ar
Dachwedd 10, yn 92 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn hefyd ag Annette a
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen a'r teulu
yn eu profedigaeth o golli eu brawd yng
nghyfraith, Alun Hughes, Porth Amlwch
yn ddirybudd ddechrau'r wythnos.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Bwriedir cynnal Pwyllgor yr Ofalaeth
i drafod materion ariannol yr Ofalaeth
nos Fercher, Tachwedd 29. Caiff ei
gynnal yn Capel Coch am 7.00 o'r
gloch. Gobeithio bydd modd cael
cynrychiolaeth o bob eglwys.

Pwyllgor Carmel

Cynhelir Pwyllgor Swyddogion Capel
Carmel am 7.00 o'r gloch, nos Lun,
Tachwedd 20.

Ffair Nadolig

Mae wythnos Ffair Nadolig Capel Coch
wedi cyrraedd. Cynhelir y Ffair yn Capel
Coch am 2.00 o'r gloch ddydd Mawrth,
Tachwedd 21.

Bydd yno hamperi Nadolig ynghyd â
gwahanol stondinau gwerthu fel arfer.

Ni fydd yno stondin 'bric a brac' y tro
hwn, ond bydd yno stondin ar gyfer
nwyddau 'newydd neu bron newydd'.
Byddwn yn falch o dderbyn nwyddau ar
gyfer y stondin hon.

£1 (yn cynnwys paned a bisged) fydd y
tâl mynediad. Edrychir ymlaen at gael y
gefnogaeth arferol.

DCDC

Gofynnwyd i ni gyhoeddi y bydd
'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn cael
ei recordio yng Nghapel Emaus, Bangor
am 6.30 o'r gloch, nos Lun, Rhagfyr 11
dan arweiniad Cefin Roberts.

Parti Dolig CIC

Bydd Coleg y Bala yn cynnal Parti Dolig
CIC yn Y Ganolfan yn Llanberis nos
Wener, Rhagfyr 8.

Mae'r noson ar gyfer clybiau CIC y Gog-
ledd-orllewin. Fe'i cynhaliwyd mewn
gwahanol ardaloedd dros y blynyddoedd,
ond eleni ni fydd raid i ni logi bws na
theithio'n bell i fod yn rhan o'r hwyl. Yn
amlwg, bydd criw CIC Llanberis yn
mynd yno, ac edrychwn ymlaen at gael
croesawu pawb atom.

Bydd y Parti'n dechrau am 6.30 o'r gloch
ac yn gorffen am 9.15 o'r gloch.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r
gloch, nos Wener, Tachwedd 24.

Gair yn Gnawd

Bydd perfformiad o 'Gair yn Gnawd' yn
Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Sul,
Rhagfyr 10.

Cyfansoddwyd y cyflwyniad cerddorol
hwn gan Linda Gittins, Penri Roberts a'r
diweddar Derec Williams.

Ceir ynddo hanes y Nadolig ar gân.
Caiff ei berfformio gan griw o gantorion
lleol. Mae'r caneuon yn driv i neges y
Beibl am eni Iesu, a bydd felly'n gyfle i
ddathlu'r Nadolig mewn ffordd newydd a
gwahanol.

Bydd tâl mynediad o £5, er mwyn codi
arian at ymdrech Capel Coch at apêl
'Corwynt Cariad' Cymorth Cristnogol ac
Eglwys Bresbyteraidd Cymru, i gefnogi
pobl yn Ynysoedd y Pilipinas.

